# Datganiad Blynyddol am Uniondeb Ymchwil

2017-18

P1819-722

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## RHAGARWEINIAD

***Dyma 3ydd Datganiad Blynyddol y Brifysgol am Uniondeb Ymchwil ac mae'n berthnasol i gyfnod academaidd 2017/18***

Ym mis Gorffennaf 2013, cadarnhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) y byddai'n rhaid i holl brifysgolion Cymru gydymffurfio â C*honcordat Cefnogi Uniondeb Ymchwil y DU* er mwyn parhau'n gymwys i dderbyn cyllid ymchwil gan CCAUC. Mae'r Concordat yn cynnwys pum ymrwymiad, y mae pob un ohonynt yn pennu gweithredoedd penodol ar gyfer Prifysgolion fel cyflogwyr, ar gyfer ymchwilwyr unigol ac ar gyfer arianwyr ymchwil.

Mae un o ymrwymiadau'r Concordat yn gofyn i sefydliadau ymchwil:

- Ddarparu crynodeb o weithredoedd a gweithgareddau maent wedi ymgymryd â nhw â'r nod o gefnogi a chryfhau dealltwriaeth o uniondeb ymchwil
- Darparu sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith ganddynt i ymdrin â honiadau o gamymddygiad yn dryloyw, yn gadarn ac yn deg a'u bod yn parhau'n briodol i anghenion y sefydliad; a
- Darparu datganiad lefel uchel am unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad mewn ymchwil a gynhaliwyd.

**Er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymiadau uchod i'r Concordat, mae Prifysgol Abertawe wedi rhoi'r gweithgareddau canlynol ar waith:**

Yn **2014/15**, datblygodd y Brifysgol *Fframwaith Polisi ar Uniondeb Ymchwil*: *Moeseg a Llywodraethu* a lluniodd strwythurau, polisïau a phrotocolau sefydliadol i gefnogi a gweithredu'r polisïau yn y fframwaith hwn.

Yn **2015/16** sefydlwyd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol. Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o saith Coleg ac Ysgol y Brifysgol, ynghyd â chynrychiolaeth o Unedau Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol, yr Uned Treialon Clinigol ac Ymddiriedolaeth leol y GIG. Yn ogystal, sefydlodd chwech o'r saith Coleg eu pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu eu hunain sy'n adrodd i Bwyllgor y Brifysgol. Mae pwyllgor y Brifysgol yn cwrdd unwaith y tymor.

Yn **2016-17** datblygwyd strwythurau llywodraethu uniondeb ymchwil ymhellach drwy'r canlynol:

1. Penodwyd Arweinydd Academaidd a Dirprwy Arweinydd Academaidd ar gyfer Uniondeb Ymchwil er mwyn darparu cyfeiriad strategol yn y maes (Mehefin 2016).
2. Penodwyd Rheolwr Uniondeb Ymchwil yn Swyddfa'r Is-ganghellor i fod yn gyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau ynghylch uniondeb ymchwil ac i ddarparu trosolwg strategol a chyfeiriad polisi ym maes cydymffurfiaeth reoleiddiol (Hydref 2016)
3. Penodwyd Swyddog Fframwaith Llywodraethu Ymchwil rhan-amser yn y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) i helpu i sefydlu prosesau noddi'r Brifysgol a phrotocolau sicrhau ansawdd
4. Prynwyd pecyn hyfforddiant ar-lein (Epigeum) ar uniondeb ymchwil ar gyfer staff a myfyrwyr.
5. Cefnogwyd Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd i brynu a threialu system ar-lein i gyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth foesegol (Infonetica) a chefnogwyd y Coleg Gwyddoniaeth i ddatblygu system ar-lein 'fewnol' ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth foesegol.

6. Datblygwyd pecyn hyfforddiant 'mewnol' ychwanegol ar uniondeb ymchwil ar gyfer staff a myfyrwyr drwy wasanaethau Datblygu a Hyfforddiant APECS a phrynwyd system hyfforddiant ar-lein ym maes Diogelu mewn Addysg Uwch
7. Datblygwyd gwefan uniondeb ymchwil arbennig sy'n cynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr
8. Lluniwyd a dosbarthwyd taflen am uniondeb ymchwil gan gynnwys gwybodaeth allweddol a manylion cyswllt
9. Adolygwyd polisïau uniondeb ymchwil a datblygwyd a gweithredwyd polisïau newydd ym meysydd 'Gweithio gyda Phlant a Grwpiau sy'n Agored i Niwed' a pholisi ar Ymchwil Clinigol.
10. Lluniwyd polisi drafft ar asesu risg prosiectau ymchwil a Pholisi ar Awduraeth
11. Cafwyd 'sicrwydd sylweddol' ar gyfer y maes gan archwiliad a gynhaliwyd gan yr Uned Archwilio Mewnol ar y Cyd.

## Adroddiad ar gynnydd mewn meysydd penodol 2017-18:

- **Is-Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol**

Parhaodd is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol i gwrdd yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu trosolwg strategol ar gyfer nifer o bolisïau a phrosesau'r Brifysgol a darparu cymorth/cyngor/arweiniad i Golegau/Ysgolion. Derbyniwyd adroddiadau ar gynnydd gan bwyllgorau moeseg Colegau ac is-bwyllgorau eraill (AWERB), Uned Dreialon Abertawe, Llywodraethu Meinweoedd Dynol, y Sefydliad Ymchwil Moeseg a'r Gyfraith. Derbyniwyd hefyd ddiweddariadau gan isadrannau amrywiol y Gwasanaethau Proffesiynol o ran cydymffurfiaeth â'r agenda 'Prevent' (ymchwil sensitif o ran diogelwch), Diogelu, Parhad Busnes a Chydnerthedd.

- **Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Colegau**

Mae gan bob Coleg/Ysgol bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil sy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd. Mae cadeiryddion pwyllgorau'r Colegau'n mynychu cyfarfodydd Pwyllgor y Brifysgol ac yn rhoi adroddiadau a diweddariadau rheolaidd iddo. Lle bynnag y bo angen, mae is-bwyllgorau ychwanegol yn parhau i gefnogi pwyllgorau'r Colegau/Ysgolion.

- **Penodiadau a Diweddariadau**

1. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Uned Uniondeb Ymchwil yn y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS). Penodwyd Deon Academaidd ar gyfer Uniondeb Ymchwil, a chafodd y Rheolwr Uniondeb Ymchwil ei drosglwyddo o Swyddfa'r Is-ganghellor i REIS i fod yn rhan o'r Uned. Penodwyd Swyddog Llywodraethu Ymchwil **amser llawn** i'r Uned hefyd er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'i chyfrifoldeb i gyflawni amcanion llywodraethu ymchwil yn unol â gofynion yr Awdurdod Ymchwil Iechyd. Y Swyddog Llywodraethu Ymchwil yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â moeseg, llywodraethu a noddi prosiectau sydd wedi'u halinio â Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2. Bu'r Deon Academaidd ac aelodau'r uned uniondeb ymchwil yn mynychu pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Colegau i drafod asesu risgiau a monitro prosiectau, gan amlygu'r angen i fabwysiadu ymagwedd 'asesu risg' wrth adolygu ceisiadau moesegol.

3. Mae'r Deon Academaidd a'r Rheolwr Uniondeb Ymchwil yn parhau i weithio gyda'r swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig i archwilio opsiynau i gyflwyno pecyn hyfforddiant ar uniondeb ymchwil i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

4. Lluniodd Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol arweiniad ar gyfer ymchwilwyr a chynhyrchwyd hyfforddiant gorfodol ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i gynorthwyo ymchwilwyr wrth gyflawni eu rhwymedigaethau yn y maes hwn.

5. Adolygwyd polisïau eraill o fewn y fframwaith polisïau i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, gofynion rheoleiddio ac arferion ymchwil http://www.swansea.ac.uk/research/researchintegrity/research-integrity-policies/

6. Ymunodd y Brifysgol â llofnodwyr ffurfiol y Concordat ar Ddata Ymchwil Agored.

7. Rhoddwyd system ar-lein ar waith ar gyfer cymeradwyaeth foesegol o geisiadau yn yr Adran Seicoleg er mwyn gwella effeithlonrwydd, diogelwch a safoni yn y broses adolygiad moesegol. Mewn ymateb i'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd, mae Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd bellach yn bwriadu cyflwyno'r system i’r meysydd pwnc eraill yn y Coleg.

8. Derbyniodd y system adolygiad moesegol mewnol a ddatblygwyd gan y Coleg Gwyddoniaeth adborth cadarnhaol hefyd yn y Coleg a chan aelodau pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn gobeithio cynnig y system hon ar ffurf cynllun peilot i Golegau eraill er mwyn asesu pa mor ddefnyddiol ydyw.

9. Ym mis Mawrth 2018, cyflwynwyd pecyn hyfforddiant ar-lein **gorfodol** ym maes uniondeb ymchwil (Epigeum) i'r holl staff y mae ymchwil yn rhan helaeth o’u gwaith er mwyn hyrwyddo a datblygu diwylliant uniondeb ymhellach. Mae'r hyfforddiant ar gael mewn pum maes pwnc penodol a cheir prawf ar ddiwedd y cwrs.

10. Ers cam cyntaf cyflwyno Epigeum ym mis Awst 2017, mae 551 o aelodau staff wedi cofrestru ar y cwrs ac mae 359 wedi ei gwblhau'n llwyddiannus. Ychwanegwyd Epigeum at y rhestr wirio sefydlu ar gyfer aelodau staff newydd y Brifysgol. Mae'r cwrs wedi cael ei gynnig i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig hefyd. Bwriedir hyrwyddo'r cwrs ymhellach yn 2018/19.

11. Yn ogystal â'r hyfforddiant ar-lein, mae pecyn ***hyfforddiant mewnol*** ar-lein ar wahân ar uniondeb ymchwil yn parhau ar gael i staff sy'n gwneud ymchwil drwy'r gwasanaethau datblygiad a hyfforddiant staff. Mae'r rhaglen dysgu dros ginio yn cyflwyno ymchwilwyr i bolisïau'r Brifysgol ar uniondeb ymchwil, yn darparu gwybodaeth ac arweiniad ar gynnal adolygiad moesegol o ymchwil, noddi ymchwil, gweithio gyda meinweoedd dynol a diogelu mewn addysg uwch.

12. Adnewyddwyd y drwydded safle ar gyfer y pecyn hyfforddiant ar-lein ar ‘Ymwybyddiaeth o Ddiogelu’ yn ystod 2017/18 i ddarparu adnodd arweiniad a gwybodaeth defnyddiol i ymchwilwyr sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy’n agored i niwed.

13. Yn ystod 2017/18, adolygwyd y tudalennau gwe ar uniondeb ymchwil a datblygwyd cynnwys ar gyfer gwefan newydd y Brifysgol i'w lansio ym mlwyddyn academaidd 2018/19. Y nod oedd sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar wybodaeth a theilwra cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.

14. Mae'r Brifysgol yn parhau i danysgrifio i Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO). Cymerodd cynrychiolydd o'r Brifysgol ran yng nghynhadledd uniondeb ymchwil flynyddol UKRIO yn 2018 gan gasglu gwybodaeth ddefnyddiol a ledaenwyd i'r staff. Bu'r gynhadledd yn gyfle i rwydweithio â chydweithwyr o sefydliadau eraill yn y maes a dysgu am arfer gorau.

15. Ym mis Mawrth 2018, daeth y Brifysgol yn aelod o’r sefydliad 'Understanding Animal Research’ (UAR) a llofnododd y Concordat ar Dryloywder mewn Ymchwil sy’n cynnwys Anifeiliaid. Mae'r concordat yn gyfres o ymrwymiadau gan sefydliadau gwyddorau bywyd yn y DU i wella'r ffordd maent yn cyfathrebu ynghylch ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid ac i fod yn fwy tryloyw am y ffyrdd mae anifeiliaid yn cael eu defnyddio mewn ymchwil gwyddonol, meddygol a milfeddygol yn y DU.

***CAMYMDDYGIAD MEWN YMCHWIL***

16. Mae gan y Brifysgol sianelau sefydledig a chyfrinachol er mwyn rhoi gwybod am honiadau o gamymddygiad mewn ymchwil drwy fynediad cyfyngedig i fewnflwch e-bost camymddygiad mewn ymchwil.

17. Mae'r Brifysgol wedi ceisio arweiniad arbenigol gan UKRIO wrth ddatblygu polisïau a phrosesau i ymdrin â honiadau o gamymddygiad, er mwyn sicrhau bod y prosesau ymchwilio yn gadarn, yn dryloyw ac yn deg.

18. Mae'r prosesau ymchwilio i gamymddygiad wedi'u rhannu'n dri cham yn fras: cam rhagarweiniol; cam sgrinio ac, os oes angen, ymchwiliad ffurfiol. Gellir diystyried yr honiad ar unrhyw gam os tybir nad oes digon o wybodaeth; neu os nad yw o fewn cwmpas y diffiniad o gamymddygiad mewn ymchwil neu os na chadarnhawyd yr honiad oherwydd ei natur wamal, flinderus neu faleisus. Os nad yw'r honiad yn un difrifol, gellir ymdrin ag ef ar y cam sgrinio drwy brosesau cymhwysedd, hyfforddiant, addysg neu brosesau eraill nad ydynt yn ddisgyblaethol, yn hytrach na thrwy ymchwiliad ffurfiol.

19. Y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu yw'r unigolyn a enwir yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am dderbyn ac ymateb i honiadau ynghylch camymddygiad mewn ymchwil.

20. Mae manylion am y prosesau hysbysu ar gael ar y wefan yn http://www.swansea.ac.uk/research/researchintegrity/researchmisconduct/

21. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, ni dderbyniwyd yr un honiad newydd o dan weithdrefnau Camymddygiad mewn Ymchwil y Brifysgol. Cynhaliwyd un ymchwiliad yn sgil derbyn honiad ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2016/17:

| Honiad | Natur y camymddygiad honedig | Canlyniad |
|---|---|---|
| 1 | Trefniadau cynnal ymchwil (cydsyniad gwybodus) | Derbyniwyd ym mlwyddyn academaidd 2016/17, trosglwyddwyd i 2017/18<br><br>Diystyriwyd ar y cam sgrinio - dim rhesymau dros fwrw ymlaen |

## Heriau ar gyfer 2018/19:

- **Hyfforddiant**

Bydd contract yr hyfforddiant ar-lein mewn uniondeb ymchwil (Epigeum), a brynwyd ym mis Medi 2016, yn dod i ben ym mis Awst 2019. Bydd rhaid i'r Brifysgol asesu'n gyflym a ddylai barhau i danysgrifio i'r hyfforddiant hwn neu ddatblygu pecyn hyfforddi mewnol. Mae'r pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-raddedig y Colegau/Ysgolion, wedi mynegi dymuniad i gyflwyno hyfforddiant pum awr Epigeum i fyfyrwyr. Mae'n ofynnol i lofnodwyr y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil hyfforddi myfyrwyr mewn polisïau a gweithdrefnau uniondeb ymchwil, a gallai hyn fod yn ffordd o wella'r amgylchedd ymchwil. Byddai cyflwyno hyfforddiant i fyfyrwyr yn brosiect sylweddol a allai fod â goblygiadau o ran monitro’r niferoedd sy'n ei gwblhau ac adrodd amdano. Os cymeradwyir y cynnig hwn, byddai'n gofyn am adnoddau cyllid a chymorth sylweddol. Gallai monitro'r niferoedd sy'n cwblhau'r pecyn hyfforddiant a chasglu data fod yn her pan fydd yr hyfforddiant ar gael yn helaeth. Felly, mae angen ystyried yr agwedd hon yn ofalus drwy'r broses cynllunio busnes ar gyfer 2018/19.

- **Ymgysylltu a chynyddu ymwybyddiaeth o uniondeb ymchwil**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwnaed ymdrechion anferth i gyflawni a chefnogi ymrwymiad y Brifysgol i'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. O ganlyniad, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa well nag erioed o ran polisïau, prosesau, protocolau, a'r hyfforddiant a'r wybodaeth mae'n eu darparu i staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, mae

llawer i'w wneud o hyd i sicrhau 'newid diwylliannol' i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ymchwilwyr o fanteision uniondeb mewn ymchwil.

Felly, bydd y pwyslais mewn gweithgareddau ymchwil yn y flwyddyn i ddod ar weithgareddau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o uniondeb ymchwil ymhlith staff a myfyrwyr. Drwy gydweithio â'r Gwasanaethau Academaidd, REIS, GGS a'r Brifysgol ehangach, gallai'r fath gynigion gynnwys cynnal sesiynau dysgu dros ginio neu frecwast rheolaidd, cynnal gweithdai hanner diwrnod ar uniondeb ymchwil ac, o bosib, gynhadledd flynyddol gan wahodd siaradwyr allanol o Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) ac o brifysgolion eraill yng Ngrŵp Russell y DU sydd ar flaen y gad wrth roi'r Concordat ar waith yn eu sefydliadau. Bydd y gweithgareddau hyn yn galw am adnoddau ariannol a staffio, felly byddai rhaid iddynt fod yn rhan o'r broses cynllunio busnes.

- **Cynyddu ymwybyddiaeth o brosesau rhoi gwybod am Gamymddygiad mewn Ymchwil**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu adegau pan nad oedd staff yn y sefydliad neu unigolion/cyrff allanol yn sicr o'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am amheuon o gamymddygiad mewn ymchwil. Gofynnodd rhai aelodau staff am arweiniad i'w helpu i ddeall a fyddai achos penodol yn cydweddu â'r diffiniad o gamymddygiad mewn ymchwil. Erbyn hyn, mae'r dudalen we ar uniondeb ymchwil yn cynnwys cyfeiriad e-bost a chyswllt penodol i roi gwybod am honiadau o'r fath. Byddai'n ddoeth, fodd bynnag, sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu mor eang â phosib yn y Brifysgol, a gellid sefydlu grŵp o hyrwyddwyr uniondeb ymchwil i ddarparu cyngor/cyfeiriad cyfrinachol i'r rhai sydd am gyflwyno honiad. Gellid llunio polisi 'Datgelu Camarfer' hefyd i sicrhau bod achwynwyr yn ddienw a'u diogelu rhag dial yn sgil mynegi pryder.

- **Nawdd**

Dyma rai o'r gweithgareddau y bwriadwn ymgymryd â nhw yn ystod 2018/19: sefydlu prosesau a phrotocolau priodol ar gyfer llywodraethu ymchwil a noddir; tudalen we ar ymchwil clinigol gan gynnwys polisïau, prosesau, siart llif a gwybodaeth i staff; hyfforddiant priodol ar weithdrefnau; trefniadau monitro a sicrhau ansawdd prosiectau sydd o fewn cylch gorchwyl yr Awdurdod Ymchwil Iechyd a'r Fframwaith Llywodraethu Ymchwil.

***Gwybodaeth bellach:***

Lluniwyd y datganiad hwn gan y Rheolwr Uniondeb Ymchwil a chafodd ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2019 gan Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol. Os oes gennych ymholiadau neu os hoffech wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil, e-bostiwch: researchintegrity@abertawe.ac.uk.